Companies House
for the record

CYLCH GWAITH
BWRDD LLYWIO TŶ'R CWMNÏAU

Rôl y Bwrdd Llywio yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy gyfrwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol Marchnadoedd Teg fel arfer, ynghylch y gwaith o lywodraethu'r Asiantaeth, yn arbennig ei chynllun corfforaethol, ei thargedau a'i pherfformiad. Yn ogystal, mae'n darparu arweiniad o safbwynt masnachol neu fusnes i'r Prif Weithredydd a'i dîm uwch ynghylch gweithrediad a datblygiad yr Asiantaeth.

Amcanion a Dyletswyddau'r Bwrdd Llywio

- Rhoi cyngor ynghylch cyfeiriad strategol a darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun Datblygu a'r targedau cyffredinol, o fewn fframwaith amcanion cyffredinol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS) a gwasanaeth ac amcanion ehangach y Llywodraeth o ran busnes.
- Cynnig her strategol ynghylch y cynlluniau corfforaethol a Busnes, a chymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol i'w cyflwyno gan y Swyddog Cyfrifyddu.
- Asesu adroddiadau perfformiad rheolaidd.
- Rhoi cyngor ynghylch perfformiad, a'i fonitro, gan gynnwys gosod targedau, yn enwedig wrth sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau adrannol a nodau ehangach y llywodraeth, ynghyd â pherfformiad yn eu herbyn, yn ogystal â chynnig asesiad annibynnol o'r targedau a'r prosesau sylfaenol.
- Rhoi cyngor ynghylch cwmpas a chanlyniadau adolygiadau Asiantaeth.
- Rhoi cyngor ynghylch datblygiadau busnes mawr sy'n awgrymu newid sylweddol o ran rôl neu weithgareddau'r Asiantaeth ac ynghylch unrhyw risg y mae'n ei hwynebu, a gwaith i reoli'r risg hon.

Aelodaeth

Cadeirydd Aelod Anweithredol o'r Bwrdd Llywio

Aelodau Pedwar aelod anweithredol pellach o'r Bwrdd
Cyfarwyddwr Cyffredinol Marchnadoedd Teg, BIS
Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraeth Cwmnïau, BIS
Prif Weithredydd a Swyddog Cyfrifyddu Tŷ'r Cwmnïau
Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol Tŷ'r Cwmnïau
Cyfarwyddwr Gwireddu Atebion Busnes Tŷ'r Cwmnïau
Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'u Gwireddiad, Tŷ'r Cwmnïau
Cyfarwyddwr Cyllid Tŷ'r Cwmnïau

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Tŷ'r Cwmnïau

Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Tŷ'r Cwmnïau

Is-bwyllgor Ymgynghori Annibynnol

Aelodau anweithredol y Bwrdd Llywio, ynghyd â'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyffrednol Marchnadoedd Teg a, phan fo hynny'n briodol, y Prif Weithredydd, yw'r Is-bwyllgor Ymgynghori Annibynnol. Gall y pwyllgor hwn gyfarfod i drafod unrhyw faterion eraill pan na fydd yn briodol, efallai, i aelodau gweithredol y Bwrdd Llywio fod yn bresennol.

Cworwm

Bydd y Bwrdd Llywio wedi'i gyfansoddi'n gywir pan fydd tri o'r aelodau neu fwy yn bresennol. O'r rhain, rhaid cael aelod annibynnol, cynrychiolydd BIS a'r Prif Weithredydd neu, yn ei absenoldeb, un o Gyfarwyddwyr Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau a enwebwyd gan y Prif Weithredydd i'r diben hwnnw.

Amlder a lleoliad cyfarfodydd

Mae'r Bwrdd Llywio yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd hyn yng Nghaerdydd ond cynhelir cyfarfodydd achlysurol yng Nghaeredin, Llundain a Belffast. Yn ogystal, cynhelir 'diwrnod i ffwrdd' ar bwnc cynllunio strategol bob blwyddyn yn ystod misoedd yr haf. Estynnir gwahoddiad i'r aelodau sy'n ymuno â'r Bwrdd Llywio dreulio diwrnod sefydlu yng Nghaerdydd. Yn ogystal, disgwylir i Aelodau'r Bwrdd Llywio gymryd rhan mewn byrddau cyfweld uwch a seminarau achlysurol ar y lefel uwch.

Tymor Gwasanaeth

Tair blynedd fydd tymor swydd Aelodau anweithredol y Bwrdd Llywio

Cydnabyddiaeth

Y gydnabyddiaeth ariannol i'r cadeirydd yw £9,200 y flwyddyn. Y gydnabyddiaeth ariannol i aelod anweithredol o'r Bwrdd yw £5,520 y flwyddyn, am ymrwymiad o tua 9 diwrnod y flwyddyn, a gaiff ei thalu mewn dau randaliad ar ddiwedd Mehefin a Rhagfyr. Caiff ei swydd ei dosbarthu'n "Ddeiliad Swydd" at ddibenion y dreth ac Yswiriant Gwladol ac fel y cyfryw, o dan Adran 19(1) o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988, mae'r ffi'n agored i'w threthu yn unol ag Atodlen E ac mae atebolrwydd i Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ynghlwm wrthi. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn talu costau teithio rhesymol os cyflwynir derbynebau.

Cofnodion

Bydd cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyfarfod a'u dosbarthu ymhlith yr aelodau cyn pen deg diwrnod gwaith i bob cyfarfod.

Tŷ'r Cwmnïau
Hydref 2009